**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Deisebau@senedd.cymru

19 Ionawr 2021

Annwyl Cadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 30 Tachwedd 2020 am y ddeiseb a gyflwynwyd ynglŷn ag etholiad y Senedd ym mis Mai 2021.

I ddechrau, hoffwn bwysleisio mai ein bwriad yw y bydd yr etholiad yn cael ei gynnal, fel y cynlluniwyd, ar 6 Mai 2021. Fodd bynnag, fel llywodraeth gyfrifol, mae'n rhaid inni baratoi ar gyfer amryw o wahanol sefyllfaoedd rhag ofn y bydd y pandemig yn achosi bygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd ac na fydd yn ddiogel i gynnal yr etholiad bryd hynny.

Fe wnaethom sefydlu'r Grŵp Cynllunio Etholiadau, felly, gyda chynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol, i ystyried addasiadau deddfwriaethol y mae'n bosibl y bydd eu hangen i ymateb i'r sefyllfa iechyd y cyhoedd ac i sicrhau diogelwch a llesiant pawb sydd ynghlwm â'r etholiad. Bu adroddiad y Grŵp yn destun dadl yn y Senedd ar 17 Tachwedd. Yn y ddadl, nodais ein bwriad i gyflwyno Bil sy'n cynnwys darpariaethau a fyddai'n galluogi'r Llywydd i ohirio'r etholiad os oes angen oherwydd bod nifer yr achosion o'r coronafeirws yn uchel.

Mae deddfwriaeth debyg wedi cael ei gosod yn yr Alban.

Mewn ymateb i'r pwyntiau penodol a wnaed yn nhestun y ddeiseb, nid yw'r hawl i bleidleisio'n cael ei dileu ac nid penderfyniad i Lywodraeth Cymru fyddai gohirio. Byddai'n rhaid i ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Senedd gytuno ar unrhyw benderfyniad i geisio cael gohirio – byddai gan bob Aelod o'r Senedd ran mewn unrhyw benderfyniad ynglŷn â gohirio felly. Y Llywydd fyddai'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol.
Mae pŵer cyfreithiol i ohirio etholiad y Senedd am hyd at fis eisoes yn bodoli, yn ôl disgresiwn y Llywydd ac yn amodol ar Broclamasiwn Brenhinol.

Bydd unrhyw benderfyniad i ohirio'r etholiad yn cael ei wneud yng Nghymru gan Aelodau'r Senedd, ond bydd rhywfaint o gysylltiad yn amlwg rhwng penderfyniadau a wneir gan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lywodraeth y DU ynglŷn ag etholiadau yn Lloegr ac etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.

Pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu – ar sail tystiolaeth wyddonol ynglŷn â chynnydd y pandemig a'r ymdrech frechu – y dylid gohirio etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, byddai'n rhaid inni allu dangos i etholwyr Cymru pam ein bod ninnau wedi mabwysiadu safbwynt arall ac mai bwrw ati gydag etholiadau'r Senedd fyddai'r peth cywir i'w wneud o dan yr un amgylchiadau.

Wedi profiadau'r misoedd diwethaf mae pob un ohonom yn ymwybodol pa mor gyflym y gall y coronafeirws ledaenu. Felly, byddai'n anghyfrifol inni beidio â gwneud cynlluniau wrth gefn ar gyfer yr etholiad ym mis Mai.

Bydd y mesurau yr ydym wedi eu cynnig yn galluogi'r Llywydd i benderfynu, fel opsiwn pan fetho pob dim arall, a ddylid gohirio dyddiad yr etholiad i'w gynnal ar amser pan fydd yn fwy diogel i bobl bleidleisio os na fydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd wedi gwella'n sylweddol erbyn mis Mai.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**